



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Ymchwil Cadw i Enwau Topograffig

### Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith am dâl ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Ffocws y prosiect fydd ymchwilio i newidiadau i enwau nodweddion topograffig yng Nghymru, gan nodi ble, sut a pham mae newidiadau i enwau topograffig yn digwydd, faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur ac amgylchiadau manwl y newidiadau hyn. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil a'u datblygu, a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academaidd.

### Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

Yr interniaeth Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw ac mae'n gweithio dros amgylchedd hanesyddol hygyrch sy'n cael ei ddiogelu'n dda. Gwneir hyn drwy:

- helpu i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol
- hyrwyddo datblygiad y sgiliau sydd eu hangen i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol yn briodol
- helpu pobl i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i fwynhau
- gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er lles economaidd
- gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ein nodau cyffredin gyda'n gilydd.

Mae datblygu cynlluniau i ddiogelu enwau lleoedd Cymru yn un o amcanion Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, ac atgyfnerthwyd hyn gan y Cytundeb Cydweithredu blaenorol rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae meithrin seilwaith positif i'r Gymraeg, gan gynnwys sicrhau ei bod yn cael ei gweld, ei chlywed a'i defnyddio, hefyd yn agwedd bwysig ar

strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, gyda'i gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2021-26 yn ein hymrwymo i weithio “i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg sy'n rhan annatod o'n treftadaeth”.

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academiaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## **Y prosiect**

Ymchwil Cadw i Enwau Topograffig

### *Cefndir*

Ar y cyd ag Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, mae Cadw yn archwilio sut i ddiogelu'r Gymraeg ac enwau lleoedd hanesyddol yn well.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan hollbwysig o dreftadaeth Cymru ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad unigryw cymunedau ledled y wlad. Maent yn cynnig cipolwg ar y newidiadau ieithyddol, cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi llunio Cymru, gan ffurfio etifeddiaeth gyfoethog ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn aml yn ddisgrifiadol o'r amodau adeg eu henwi a gallant gyfeirio at dopograffi, cysylltiadau â phobl neu ddigwyddiadau pwysig yn y gorffennol neu gyfnodau a effeithiodd ar yr ardal, gan ddarparu gwybodaeth hollbwysig am ddefnydd tir, archaeoleg a hanes Cymru. Mae enwau Cymraeg hanesyddol yn arbennig o bwysig i gymeriad gweledol a chlywedol cymunedau, a chydabyddir yr angen arbennig i werthfawrogi a chadw etifeddiaeth gyfoethog ein henwau lleoedd Cymraeg.

Fodd bynnag, y canfyddiad cyffredinol yw bod y dreftadaeth hon o enwau lleoedd dan fygythiad, yn enwedig mewn rhannau o Gymru. Ers nifer o flynyddoedd, mae galwadau wedi bod am gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryder eang bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu newid yn aml i enwau Saesneg, a bod hyn yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd unigryw Cymraeg mae pobl yn byw ynddo. Cafwyd llawer o adroddiadau yn y cyfryngau am enwau eiddo Cymraeg – boed y rheini'n enwau hanesyddol neu fel arall – ac enwau lleoedd topograffig yn cael eu disodli gan enwau o'r Saesneg ac ieithoedd eraill. Mae llawer o'r adroddiadau hyn yn ymwneud â newidiadau i enwau lleoedd yng nghadarnleoedd Cymraeg y gogledd a'r gorllewin. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ar gyfer y newidiadau hyn i raddau helaeth yn anecdotaidd, ac mae data cynhwysfawr ynglŷn â ble, sut a pham y mae eiddo lleoedd topograffig Cymraeg yn newid yn ddifrifol brin.

Comisiynodd Cadw ymchwil (i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2025) i ddeall yn well y newidiadau i enwau lleoedd Cymraeg drwy archwilio'r newidiadau i enwau lleoedd yn ogystal â'r rhesymau y tu ôl iddynt. Creodd yr ymchwil hon sylfaen dystiolaeth gadarn i helpu i nodi pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer diogelu enwau lleoedd Cymraeg os a lle y canfyddir eu bod dan fygythiad o gael eu newid. Edrychodd yr ymchwil ar enwau eiddo yn bennaf (gan gynnwys tai, ffermydd ac adeiladau eraill), enwau busnes, a datblygiadau ac enwau strydoedd cysylltiedig.

Trafododd yr ymchwil rai enghreifftiau o newidiadau i enwau topograffig. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys archwiliad manwl o enwau topograffig, nac ychwaith yn archwilio'r berthynas rhwng enwau lleoedd a fathwyd gan gymdeithasau a chwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored a sut mae'r enwau hynny yn cael eu normaleiddio yn y gymuned leol ac ar-lein. Mae'r interniaeth hon yn rhoi cyfle i barhau â'r ymchwil hwn ynghylch newidiadau i enwau nodweddion topograffig yng Nghymru ac o dan ba amgylchiadau y digwyddodd y newidiadau hyn.

Bydd ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng enwau lleoedd topograffig a fathwyd gan gymdeithasau a chwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored, a sut mae'r enwau hynny yn cael eu normaleiddio yn y gymuned leol ac ar-lein, yn archwilio'r hyn sydd y tu ôl i bryderon bod y defnydd o enwau topograffig Cymraeg yn cael eu tanseilio o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn.

Nod yr ymchwil yw nodi ble, sut a pham mae newidiadau i enwau topograffig yn digwydd, faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur ac amgylchiadau manwl y newidiadau hyn. Mae'r ymchwil yn debygol o gynnwys cymysgedd o ddadansoddiad desg a chyfweliadau â rhanddeiliaid.

*Canlyniadau prosiect a ragwelir:*

- *Archwiliad o'r dystiolaeth a'r prosiectau presennol sydd ar y gweill yn y maes hwn.*
- *Archwiliad daearyddol ar faint o nodweddion topograffig sy'n cael eu henwi a'u hailenwi.*
- *Ychwanegu enghreifftiau newydd y deuir ar eu traws i'r sylfaen dystiolaeth 'newid enwau'.*

- *Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y maes i ganfod beth yw eu dealltwriaeth o'r materion presennol a pha weithgareddau y maent yn eu cynnal.*
- *Pennu enghreifftiau a llinellau amser o ran sut mae enwau 'answyddogol' yn datblygu o gael eu bathu o'r newydd i fod yn gyffredin ar-lein ac, yn y pen draw, yn ennill cydraddoldeb ag enw swyddogol a gofnodwyd, neu fygwth disodli'r enw hwnnw.*
- *Os yw amser yn caniatáu, edrych ar y mater fel y mae'n bodoli ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg, gan gynnwys amllder digwyddiadau a'r sentiment y tu ôl i bostiadau gwreiddiol a sylwadau dilynol. Edrych ar y sentiment cyffredinol presennol o sut mae'r mater yn cael ei weld mewn cymunedau digidol.*

## **Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth**

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 6 mis, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 6 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

### ***Manyleb myfyriwr***

Rhaid bod gan y myfyriwr:

- Sgiliau yn y Gymraeg, sy'n hanfodol
- Profiad o archwilio ac adolygu ffynonellau tystiolaeth
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ddelfrydol gyda phrofiad o gyfwrdd â rhanddeiliaid
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau ardderchog

## **Dyddiad dechrau'r interniaeth**

Mis Mai 2025 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## **Cyllid a chostau**

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd

angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn YGGCC ar: [enquiries@wgsss.ac.uk](mailto:enquiries@wgsss.ac.uk)

## **Diogelwch**

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## **Ymholiadau**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio i [Ceri.Thomas2@gov.wales](mailto:Ceri.Thomas2@gov.wales)